

CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 17

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Vaughan Gething AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Awst 2018

Annwyl Vaughan

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

Yn unol â'n harfer, rydym yn ysgrifennu cyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2020-21 Llywodraeth Cymru i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu.

Mae'r Pwyllgor Cyllid a'r Gweinidog Cyllid wedi ysgrifennu at holl Bwyllgorau'r Cynulliad er mwyn rhoi gwybod bod peth ansicrwydd yn parhau ynghylch amseriad proses y gyllideb tra bod y cynlluniau ar gyfer Adolygiad o Wariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DU yn parhau heb eu cadarnhau. Yn y cyfamser, roeddem yn credu y byddai'n ddefnyddiol rhoi cymaint o rybudd â phosibl o'r wybodaeth ysgrifenedig y byddem yn ei chroesawu mewn pryd ar gyfer y sesiwn dystiolaeth lafar y byddwn yn ei chynnal gyda chi, p'un a fydd yn digwydd fel arfer (yn nhymor yr hydref 2019), neu yn hwyrach (yn nhymor y gwanwyn 2020). Mae hwn ynghlwm yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Fel gyda'r blynyddoedd diwethaf, bydd ein dull yn seiliedig ar bedair egwyddor o ran craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. Yn ogystal, ein bwriad eleni yw bod ein sesiynau dystiolaeth lafar ar eich portffolio cabinet yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- iechyd emosiynol ac iechyd meddwl
- plant sy'n derbyn gofal
- iechyd meddwl amenedigol

Felly, byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i ofyn am wybodaeth berthnasol. Byddwn yn sicrhau eich bod yn derbyn copiâu o'r llythyrau hyn er gwybodaeth.




Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Er mwyn osgoi dyblygu diangen, byddwn hefyd yn gwahodd Aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i gymryd rhan yn ein gwaith craffu ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc – rwy'n anfon copi at Gadeirydd Pwyllgor HSCS, Dr Dai Lloyd AC, er gwybodaeth. Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Nick Ramsay AC, o ystyried y gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg ar faterion sy'n berthnasol i'n cylch gwaith.

Bydd y Clerc yn cysylltu â'ch swyddogion i gytuno ar ddyddiadau ar gyfer ein sesiwn dystiolaeth lafar, ac erbyn pryd y byddem yn croesawu'r wybodaeth ysgrifenedig. Rydym yn cydnabod na fydd yn bosibl cadarnhau trefniadau nes bod mwy o eglurder ynghylch sefyllfa Llywodraeth y DU. Byddwn yn ceisio bod mor hyblyg â phosibl gyda'n blaenraglen waith nes y byddwn yn gwybod mwy.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Copi at: Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Nick Ramsay AC, Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus



ATODIAD – CAIS AM WYBODAETH YSGRIFENEDIG CYN CRAFFU AR Y GYLLIDEB DDRAFFT

Gofynnwn am wybodaeth am y canlynol, os nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn naratif y gyllideb:

1. Y dyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020-21 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, yn ôl Ardal Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb, gan gynnwys dadansoddiad ac eglurhad o newidiadau sylweddol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 (Mehefin 2019).
- Dyraniadau MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Dangosol ar gyfer 2021-22 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.
- Sylwadau ar bob un o'r camau gweithredu o fewn Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Cymdeithasol fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau ers Cyllideb Ddrafft 2020-21 ac esboniad arnynt, ac ers y Gyllideb Atodol Gyntaf 2019-20.
- Yn absenoldeb cynllun iechyd plant, Llywodraeth Cymru i gyflwyno'n gliriach yn nogfennaeth y Gyllideb Ddrafft sut y mae adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu dyrannu.
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod adnoddau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno'n glir fel y gallwn nodi'r adnoddau a neilltuwyd, asesu i ba raddau y maent yn cael eu blaenoriaethu, a deall sut y byddant yn sicrhau gwerth am arian.

2. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

Ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) penodol ar gyfer ei chyllideb ddrafft gyffredinol yn 2019-20, er gwaethaf cais y Pwyllgor hwn iddi wneud hynny (llythyr 15 Mai 2018), gan ddibynnu yn hytrach ar ei Asesiad Effaith Integredig Strategol.

O ran Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 20-21 **ar draws y portffolios**, mae'r Pwyllgor:

- Yn ailadrodd ei gais i CRIA gael ei gynnal ar gyfer y gyllideb ddrafft fel mater o drefn.
- Yn gofyn am gopi o'r CRIA cyffredinol a wnaed gan Lywodraeth Cymru i lywio'r dyraniadau yng Nghyllideb ddrafft 2020-21. Os na chynhaliwyd CRIA penodol, y rhesymau dros hyn a chopi o unrhyw asesiad effaith integredig arall.
- Yn gofyn am esboniad o sut mae adroddiad ar y cyd y Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, *Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol*, ac ymateb Llywodraeth Cymru, wedi dylanwadu ar y dull o asesu effaith yng nghyllideb ddrafft 2020-21.

O ran **MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth am y canlynol:



- Sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau'r gyllideb o fewn y MEG.
- Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o fewn y MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn ystyriaethau o hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, neu Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3. Meysydd o ddiddordeb cyffredinol

Diweddariad ar ddyraniadau yn MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn y meysydd canlynol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, gan gynnwys:

- Gordewdra ymhlith plant: Gwybodaeth am y dyraniadau disgwylidig sy'n ofynol i weithredu 'Pwysau Iach: Cymru Iach', gan gynnwys i ba raddau y mae arian a drosglwyddir i Gyllideb Cymru o'r ardoll diwydiant diodydd meddal yn cael ei ddefnyddio ac y bydd yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant ac i wella iechyd plant yng Nghymru.
- Gwasanaethau newyddenedigol: Y dyraniadau i gyflawni'r adolygiad diweddaraf o Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan; blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol ar gyfer y 12 mis nesaf; a sut bydd dyraniad y gyllideb ar gyfer 2020-21 yn helpu i ysgogi gwella perfformiad.
- Costau deddfwriaeth: gweithredu'r Ddeddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) yn gynnar a'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)
- Dechrau'n Deg: Cyllid refeniw a chyfalaf; y sefyllfa ddiweddaraf ar yr arian allgymorth
- Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf
- Tlodi plant
- Gofal plant: y cynnig gofal plant; Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE); datblygu'r gweithlu; cyllid gofal plant arall
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
- Cefnogaeth rhianta, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau ar ddyraniadau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)
- Diogelu
- Gwasanaethau mabwysiadu, gan gynnwys cymorth ôl-fabwysiadu
- Gwasanaethau eiriolaeth: gan gynnwys dyraniadau i gefnogi'r Dull Cenedlaethol
- Y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd
- Hawliadau a hawliau plant a phobl ifanc, gan gynnwys Cymru Ifanc
- Comisiynydd Plant Cymru
- Polisi a gwasanaethau chwarae, gan gynnwys Chwarae Cymru
- Gwasanaethau plant anabl



Meysydd ar gyfer gwaith craffu

4. Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc

Byddem yn croesawu:

- Sylwebaeth fanwl mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles emosiynol Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys y goblygiadau ariannol i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020-21 o ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad Cadernid Meddwl y Pwyllgor a gweithredoedd dilynol.
- Gwybodaeth am ddyraniadau ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc yn 2020-21 a lle y gellir eu canfod yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol h.y. Manylion y Meysydd Rhaglen Gwariant perthnasol, Camau Gweithredu a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL).
- Gwybodaeth am y buddsoddiad cylchol ychwanegol o £7.1m a gyhoeddwyd yn 2019-20 ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc, gan gynnwys
 - sylwebaeth ynghylch a fydd y blaenoriaethau/dyraniadau cyllid yr un peth yn 2020-21 ag yn 2019-20
 - dadansoddiad o'r amcanion ar gyfer y cyllid hwn a pha drefniadau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i fonitro gwariant a gwerthuso ei effaith.

Mae diweddariad y Gweinidog ar **gynnydd Cadernid Meddwl** yn amlinellu'r gwahanol ffrydiau cyllido sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc. Byddem yn croesawu sylwebaeth am y cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc yng Nghymru gan gynnwys, er tryloywder:

- manylion am ddull strategol Llywodraeth Cymru;
- yr amcanion a'r nodau ar gyfer y ffrydiau cyllido (gan gynnwys gwybodaeth am y nodau cenedlaethol, ynghyd ag unrhyw ddangosyddion perfformiad neu dargedau meintiol);
- tystiolaeth sy'n dangos sut mae'r gwahanol ffrydiau cyllido wedi'u cysylltu i gyflawni nodau cenedlaethol, yn benodol manylion am:
 - **Cronfa Trawsnewid Iechyd Meddwl:** Manylion sut mae'r Gronfa Trawsnewid Iechyd Meddwl yn cael ei defnyddio i ysgogi newid/darparu gwelliannau gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaethau cymorth ar gyfer lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a chyfran dyraniad y gyllideb ar gyfer 2020-21 sy'n cael ei neilltuo o'r Gronfa Trawsnewid Iechyd Meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc.
 - **Cronfa Trawsnewid:** Dyraniadau dangosol ar gyfer 2020-21 ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc a



gyrchwyd o'r Gronfa Drawsnewid i gefnogi 'Cymru Iachach', a sut mae hyn yn cymharu ag unrhyw ddyraniadau a wnaed hyd yma.

- **Cyllid Gofal Integredig:** manylion yr asesiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru o effaith newidiadau i ganllawiau'r Gronfa Gofal Integredig, sydd bellach yn cynnwys lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan gynnwys manylion y dyraniadau ar gyfer 2019-20, pa wersi sydd wedi'u dysgu a maent wedi'u cymhwyso mewn perthynas â chynllunio cyllideb ar gyfer 2020-21.
 - **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs):** Manylion y dyraniadau cyllid ar gyfer RSBs unigol mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc.
- Manylion sut mae Llywodraeth Cymru yn pennu dyraniad cyllid / buddsoddiad ychwanegol i Fyrddau Iechyd unigol.
 - Gwybodaeth am sut y bydd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu sy'n weddill a nodwyd yn y rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a gyflwynir ar gyfer 2020-21 a faint sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn, yn benodol mewn perthynas â'r llif gwaith Cymorth Cynnar a Chefnogaeth Uwch.
 - Manylion am unrhyw drosglwyddiadau rhwng y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r MEG Addysg ar gyfer 2020-21 i gyflawni'r Dull Ysgol Gyfan a Threialon Mewngymorth CAMHS.

5. Iechyd Meddwl Amenedigol

Cafodd gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol ei nodi fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer 2019-2022 yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru *Cynllun Cyflawni Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl 2019-2022*. Mae Blaenoriaeth 5 yn nodi'r angen i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol ac ansawdd y gwasanaethau hynny. Gofynnwn am y wybodaeth ganlynol:

- O ran y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21, beth yw'r dyraniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol i gefnogi datblygiad pellach gwasanaethau ar draws pob ardal yng Nghymru, gan gynnwys mewn perthynas â safonau ansawdd a llwybrau gofal a darpariaeth cleifion mewnol.

Yn benodol:

- lefel y buddsoddiad i sefydlu uned mamau a babanod amenedigol arbenigol yng Nghymru;
- dadansoddiad o'r cyllid gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl amenedigol cymunedol, gan gynnwys sylwebaeth ar yr amcanion ar gyfer y



cyllid hwn, a pha drefniadau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i fonitro gwariant a gwerthuso ei effaith.

Disgwyliwn gael diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar wasanaethau iechyd meddwl amenedigol ym mis Awst 2019, a byddwn yn ystyried a yw hyn yn darparu digon o wybodaeth ar sut mae gwelliannau i ansawdd ac argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol amenedigol i gefnogi canlyniadau gwell i famau a'u teuluoedd yn cael eu darparu ar draws pob rhan o Gymru, a/neu a fydd angen i ni ysgrifennu am wybodaeth bellach mewn perthynas â chraffu ar y gyllideb.

Efallai y byddwn hefyd yn ysgrifennu at Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru i gael mwy o wybodaeth am ddatblygiadau mewn perthynas â darpariaeth uned amenedigol mamau a babanod yng Nghymru, ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am nifer y lleoliadau y tu allan i Gymru.

6. Plant sy'n derbyn gofal

Byddem yn croesawu:

- Sylwebaeth fanwl ar y dyraniadau yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020-21 a lle y gellir eu canfod yn y MEG (h.y. manylion y Meysydd Rhaglen Gwariant perthnasol, Camau Gweithredu a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o newidiadau sylweddol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 (Mehefin 2019)) mewn perthynas â grantiau / gwasanaethau ar gyfer:
 - Plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys gwasanaethau maethu;
 - Gwasanaethau ar ffiniau gofal / gwasanaethau gofal i atal plant rhag derbyn gofal;
 - Cymorth wrth adael gofal.
- Manylion trafodaethau, a chanlyniadau trafodaethau, gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol am yr adnoddau sydd eu hangen ar awdurdodau lleol yn y Grant Cymorth Refeniw i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Manylion trafodaethau gyda'r Grŵp Cynghori Gweinidogol Gwella Canlyniadau i Blant a sut maent wedi dylanwadu ar y dyraniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21.

O ran dyraniadau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar draws y portffolios, byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am [Ymateb Llywodraeth Cymru yn 2016 i lythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus](#) o ran plant sy'n derbyn gofal.

O ran awdurdodau lleol, a allwch chi nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unrhyw asesiad o ran a yw hyn yn gysylltiedig â



lefelau gwariant o'r Grant Cymorth Refeniw a'r Grantiau wedi'u Neilltuo. Byddem hefyd yn ddiolchgar am eich barn ar yr amrywiad mewn gwariant fesul plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Byddwn hefyd yn gofyn i awdurdodau lleol am eu barn ar y cyllid sydd ar gael iddynt i atal plant rhag dod i mewn i'r system ofal a hefyd i gefnogi'r plant hynny sy'n derbyn gofal.

